CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

# ADRODDIAD YR ASESIAD O'R EFFAITH AR LECHYD (AEI) CYFRANOGOL CYFLYM - STRATEGAETH A FFEFRIR Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Mehefin 2023



PAPUR CEFNDIROL - BP3

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)** Cyfranogol Cyflym - Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

**Cyngor Bro Morgannwg**

**27 Mehefin 2023**

**Awduron:** Cheryl Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro; Marcus Bayona-Martinez, Andrew Wallace, Georgia Peters, Cyngor Bro Morgannwg

This document is available in English/ Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN)

Mae deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a chynnal adolygiad o'r cynllun yn rheolaidd. Mae'r CDLl yn gynllun defnydd tir ar gyfer ardal ac mae'n nodi'r gofynion, y polisïau a'r cynigion penodol ar gyfer defnyddio a datblygu tir.

Mabwysiadwyd CDLl presennol Bro Morgannwg gan y Cyngor ar 28 Ionawr 2017 ac mae'n nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y sir yn ystod 2011 a 2026.

Ar ôl paratoi Adroddiad Adolygu ym mis Mehefin 2021, dechreuodd y Cyngor baratoi'r CDLlN ar ddechrau 2021 i gwmpasu cyfnod y cynllun rhwng 2021 a 2036. Cytunwyd ar y Cytundeb Cyflawni sy'n nodi'r broses ymgynghori a'r amserlen ar gyfer adolygu'r cynllun gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2022. Hyd heddiw, mae'r cerrig milltir canlynol wedi'u cyflawni sydd wedi cyfrannu at baratoi'r Strategaeth a Ffefrir:

- Ymgynghoriad ar / Cymeradwyo gweledigaeth ac amcanion y CDLlN - Ionawr 2022;
- Galwad am Safleoedd Ymgeisiol - Haf 2022;
- Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig - Haf 2022;
- Ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol ar gyfer lefel y twf a'r opsiynau gofodol - Hydref / Gaeaf 2022; ac
- Adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio'r cynllun;

Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir am 8 wythnos rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ac arolygon ar-lein, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i fanylion yr ymgynghoriad. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo. Mae'r Cynllun Adneuo, neu'r Cynllun "Llawn", yn cynnwys llawer mwy o fanylion na'r Strategaeth a Ffefrir mewn perthynas â pholisïau a safleoedd arfaethedig. Bydd y Cynllun Adneuo hefyd yn destun ymgynghoriad ffurfiol am o leiaf 6 wythnos ar ddechrau 2025.

Yn dilyn hyn, bydd y cynllun yn destun archwiliad gan Arolygydd annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2025 a disgwylir i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun yn derfynol yn Hydref 2026.

1.2 Y Strategaeth a Ffefrir

Un o'r camau allweddol wrth gynhyrchu'r CDLlN yw'r Strategaeth a Ffefrir, sy'n nodi'r fframwaith strategol ar gyfer y CDLl megis lefelau'r twf sydd ei angen a'r egwyddorion

polisi a fydd yn llywio dyraniadau defnydd tir. Bydd mwy o fanylion am y polisïau, y dyraniadau tir a'r cynigion datblygu yn cael eu cynnwys yn y cam Cynllun Adneuo diweddarach.

## 2. AEI y Strategaeth a Ffefrir

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at rôl AEIau wrth gyfrannu at waith llunio cynlluniau lleol. Mae AEI yn broses sy'n cefnogi sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau ar iechyd a lles pobl. Mae'n cynnig fframwaith systematig ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei gymhwyso mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys wrth ddatblygu CDLlau. Mae AEI yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ystyried effeithiau ehangach polisïau neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut y gallent, yn eu tro, effeithio ar iechyd pobl.

Gall AEI helpu i fewnosod mesurau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i iechyd a lleihau unrhyw risgiau, a gall nodi unrhyw 'fylchau' y gellir eu llenwi wedyn. Gall AEI hefyd gynnig ffordd o nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy nodi unrhyw grwpiau o fewn y boblogaeth y gall polisi neu gynllun effeithio arnynt yn arbennig.

Yn dilyn y fethodoleg systematig a ddisgrifir yn 'AEI a CDLl: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer' (Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU, 2021), penderfynwyd y byddai dull AEI Cyflym yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Strategaeth a Ffefrir CDLlN Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r cam Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu'n glir nodau a gweledigaeth y CDLl, y polisïau allweddol a'r opsiwn twf a ffefrir, gan ganiatáu amser i ganlyniadau'r AEI, a'r ymgynghoriad cyhoeddus fod yn rhan o'r dystiolaeth a fydd yn llywio camau diweddarach y CDLl. Mae'r broses o ddatblygu'r CDLlN wedi casglu tystiolaeth sylweddol, ac mae llawer o'r wybodaeth iechyd a'r data poblogaeth wedi'u casglu fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig, ac roedd ymgymryd â'r AEI cyflym hwn yn troshaenu hyn gyda gweithdy rhanddeiliaid ansoddol.

## 3. Gweithdy AEI Cyfranogol Cyflym

### 3.1 Diben a phroses

Diben y gweithdy oedd:

a) Nodi grwpiau poblogaeth penodol ym Mro Morgannwg y gall y CDLlN effeithio arnynt yn wahanol.
b) Nodi a oes effeithiau posibl ar iechyd, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a allai gael effaith ar iechyd a lles pobl leol, ac yn enwedig y grwpiau agored i niwed a nodir.
c) Nodi a oes unrhyw ffyrdd posibl o leihau unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl.

Roedd y gweithdy AEI yn ansoddol ei natur, a galluogodd y cyfranogwyr i rannu eu barn yn ystod y sesiwn. Casglwyd eu cyfraniadau mewn nodiadau byr. Cyn y sesiwn, rhoddwyd i'r cyfranogwyr y polisïau allweddol a fyddai'n cael eu hystyried yn ystod y gweithdy, ynghyd â rhestr wirio'n tynnu sylw at rai o'r grwpiau poblogaeth a'r penderfynyddion ehangach a allai fod yn berthnasol i boblogaeth Bro Morgannwg (gweler Atodiad 3).

Anfonwyd gwahoddiadau i'r gweithdy at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys adrannau gwahanol yn yr Awdurdod Lleol (Tai, Corfforaethol, Iechyd yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Cymuned, Gwasanaethau Rheoliadol), BIP Caerdydd a'r Fro, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Aelodau lleol. Ar yr achlysur hwn ni wahoddwyd cynrychiolwyr o'r gymuned leol yn benodol ond byddant yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngham ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir.

3.2 Methodoleg y gweithdy

Cafodd y gweithdy ei drefnu a'i gynnal gan Gyngor Bro Morgannwg a'i hwyluso gan BIP Caerdydd a'r Fro.

Cafodd y gweithdy ei gynnal ar fore 27 Mehefin 2023. Ceir rhestr o'r mynychwyr yn Atodiad 1 ac mae'r agenda ar gyfer y gweithdy yn Atodiad 2.

Dechreuodd y gweithdy gyda rhai cyflwyniadau gan Gyngor Bro Morgannwg a thîm iechyd y cyhoedd y BIP er mwyn rhoi trosolwg o'r sesiwn. Rhoddwyd cyflwyniad i'r AEI i'r cyfranogwyr ac yna trosolwg o'r CDLlN a'r Strategaeth a Ffefrir. Rhoddodd trosolwg o anghenion iechyd y boblogaeth leol fewnwelediadau i'r cyfranogwyr o ran beth yw'r problemau iechyd allweddol yn y gymuned a ble maen nhw, gan amlygu hefyd yr ardaloedd mwyaf amddifad.

Yn dilyn y cyflwyniadau, cynhaliwyd trafodaethau gyda chyfranogwyr y gweithdy mewn dwy sesiwn.

## 4. Nodi grwpiau poblogaeth agored i niwed

Cam cyntaf y gweithdy oedd nodi grwpiau agored i niwed o fewn poblogaeth y Fro y gallai'r effaith fwyaf fod arnynt o bosibl yng nghyd-destun y CDLl. Er bod yr effaith ar y boblogaeth gyfan yn cael ei hystyried, mae'n bwysig cydnabod y gallai'r effeithiau fod yn fwy i rai cymunedau a grwpiau poblogaeth ac efallai y bydd angen gwaith lliniaru penodol.

Defnyddiwyd 'rhestr wirio Grwpiau Poblogaeth' WHIASU (Atodiad 3) i gynnig arweiniad ar gyfer y drafodaeth hon. Roedd cyfranogwyr y gweithdy yn gallu cyfrannu eu gwybodaeth benodol i ddeall proffil y gymuned, gan ychwanegu at ddata poblogaeth cyhoeddedig a manylion demograffig. Er i'r cyfranogwyr gydnabod y byddai llawer o'r grwpiau

poblogaeth ar y rhestr wirio yn rhan o gymuned y Fro, roedd rhai grwpiau penodol y teimlwyd eu bod o bwys arbennig mewn perthynas â'r CDLl.

Grwpiau agored i niwed a nodwyd:

Yn gysylltiedig ag oedran:

- Myfyrwyr - mae niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn astudio yng Nghaerdydd ond yn byw yn y Fro mewn ardaloedd fel Penarth – mae poblogaethau myfyrwyr yn lledaenu o ardaloedd myfyrwyr traddodiadol
- Pobl hŷn - mae gan y Fro boblogaeth hŷn fawr sy'n tyfu, yn enwedig pobl 80+ oed, a fydd yn parhau i dyfu dros yr 20-30 mlynedd nesaf. (Dylid ystyried gwahanol anghenion grwpiau hŷn h.y. 65+/80+/90+ oed)
- Plant a phobl ifanc – mae angen i'r rhain fod ar wahân wrth ystyried anghenion, gan fod gan blant wahanol anghenion a ffyrdd o fyw i bobl ifanc (tua 12-18 oed)

Grwpiau sydd â risg uwch o brofi gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall:

- Sipsiwn a Theithwyr – mae gan y Fro nifer o deuluoedd sipsiwn a theithwyr sydd ag anghenion penodol
- Pobl sydd ag anableddau, yn enwedig nifer cynyddol o bobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Ffoaduriaid/Ceiswyr Lloches/Mewnfudwyr
- Pobl sydd â chaethiwed/problemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau

Problemau daearyddol a grwpiau poblogaeth o bwys eraill:

- Cyn-filwyr - mae gan y Fro nifer uchel o gyn-filwyr, a hefyd nifer o drigolion sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog oherwydd y ganolfan filwrol yn Sain Tathan. Gall fod ystod gymhleth o faterion iechyd ymhlith y boblogaeth hon, fel camddefnyddio sylweddau
- Mae ardaloedd yn y Barri sy’n profi dangosyddion economaidd/iechyd gwael, anghydraddoldebau a lefelau uchel o amddifadedd
- Gweithwyr gofal cymdeithasol – mae diffyg tai fforddiadwy yn broblem arbennig yng Ngorllewin y Fro, mae hyn yn effeithio ar y gallu i roi gofal i aelodau o'r gymuned pan na all gweithwyr fforddio byw'n lleol
- Darpariaeth gofal cymdeithasol – argaeledd cyfyngedig yng Ngorllewin y Fro gan arwain at gostau uwch, ac mae'n anodd cael gofal gartref oherwydd y costau teithio uchel i weithwyr a'r diffyg cartrefi fforddiadwy. Mae teithio yng Ngorllewin y Fro yn anodd i weithwyr gofal gan nad yw llawer o ofalwyr yn gyrru ac mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig

- Pobl sydd ag anghenion gofal cymhleth - mae lefel uchel o gleifion sydd angen gofal cymhleth yn y Fro
- Gall gwledigrwydd y Fro fod yn broblem o ran mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus - yn enwedig i bobl hŷn a phobl ifanc sy'n cael mynediad i gyflogaeth

## 5. Crynodeb o ganfyddiadau arfarnu penderfynyddion ehangach

Cafodd y grwpiau a nodwyd uchod eu hystyried gan gyfranogwyr y gweithdy yn ystod ail ran y gweithdy. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd wrth i'r grŵp weithio drwy'r fframwaith penderfynyddion ehangach (gweler Atodiad 3).

Canolbwyntiodd trafodaethau'r cyfranogwyr ar ystyried a oedd polisïau y Strategaeth a Ffefrir yn debygol o effeithio ar y penderfynyddion hyn. Mae'r matricsau gorffenedig a'r polisïau sy'n cysylltu â phob adran wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

### 5.1 Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

Roedd y drafodaeth yn yr adran hon yn ymwneud â gallu pobl yn y Fro i fod yn gorfforol actif, trwy fynediad i gyfleusterau ffurfiol a thrwy allu bod yn actif yn eu hamgylchedd lleol.

Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd:

- Creu seilwaith angenrheidiol ar gyfer galluogi cyfranogiad mewn ffyrdd actif o fyw ymhlith datblygiadau tai hygyrch
- Mwy o ddefnydd o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy
- Sicrhau mynediad i fwyd iach, er enghraifft mannau tyfu cymunedol a rhandiroedd fel y gall pobl dyfu eu bwyd eu hunain gan wella cyfleoedd ar gyfer opsiynau bwyd iach.

Effeithiau negyddol/anfwriadol posibl:

- Mewn rhai ardaloedd mae poblogaeth fwy dros dro - sy'n gallu ei gwneud yn anoddach sicrhau perchnogaeth gymunedol gadarnhaol a sicrhau cynhaliaeth ddigonol felly mae potensial i fannau ddirywio
- Mae newid ymddygiad yn anodd iawn ac mae rhai ardaloedd yn y Fro yn fwy dibynnol ar geir, yn enwedig yr ardaloedd gwledig. Mae angen i seilwaith a datblygiad arfaethedig fod yn hawdd, yn ddeniadol ac yn uniongyrchol.

### 5.2 Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

Canolbwyntiodd yr adran hon ar greu cymdogaethau sy'n galluogi cymunedau cydlynol â chysylltiadau da.

Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd:

- Gall datblygiadau cymunedol cymysg (cymysgu cenedlaethau, teuluoedd, pobl sengl ac ati) – helpu i sicrhau mwy o ryngweithio a chydlyniant cymdeithasol
- Bydd Mannau Menter Cymunedol sy'n cynnig mannau cymunedol amlswyddogaethol a hygyrch yn galluogi cydlyniant cymdeithasol, a dyma ffordd arloesol o ddefnyddio adeiladau segur/gwag
- Bydd cyfleoedd teithio llesol a gynigir ar ddechrau datblygiad yn annog cyfranogiad mewn gweithgareddau cymdeithasol
- Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd
- Mwy o ddefnyddiau A3/hamdden i wella cyfleoedd i gymdeithasu a bywiogi lleoedd

Effeithiau negyddol/anfwriadol posibl:

- Galw am gyfleusterau cymdeithasol ac iechyd gan boblogaeth datblygiad newydd - gallai diffyg darpariaeth ar gamau cynnar y datblygiad gynyddu'r galw am deithio mewn car e.e. i gyrraedd yr ysgol neu feddyg teulu
- Gall cost cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol fod yn rhwystr, felly dylai'r gweithgareddau a gynhelir fod mor gynhwysol â phosibl.
- Gall cost rhenti mannau masnachol fod yn rhwystr i ddefnydd cymysg o fewn datblygiadau
- Gallai datblygiadau sydd wedi'u dylunio'n wael gyfyngu ar ryngweithio cymdeithasol e.e. lle nad oes ardaloedd cymunedol neu gyfleusterau lleol
- Anghyfartaledd rhwng ardaloedd gwledig a threfol er enghraifft gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae cost trafnidiaeth gyhoeddus yn ffactor cyfyngol, yn enwedig ers y cynnydd mewn costau byw
- Gallai cynnydd mewn defnyddiau A3/hamdden fod o fudd i ardaloedd mwy cyfoethog yn unig o bosibl oherwydd y gost gysylltiedig. Bydd angen atebion fforddiadwy/dim cost mewn ardaloedd incwm isel.

Y grwpiau poblogaeth penodol y mae'r sylwadau'n berthnasol iddynt:

- Teuluoedd
- Pobl ifanc
- Plant
- Pobl hŷn
- Grwpiau incwm is

### 5.3 Lles Meddyliol

Cafwyd ychydig o drafod ynghylch y penderfynydd hwn gan fod y rhan fwyaf o'r pwyntiau yn cael eu hystyried yn yr adran uchod.

Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd:

- Cynnig mannau cymunedol a rennir – mae rhyngweithio cymdeithasol yn effeithio'n gadarnhaol ar les meddyliol
- Mae mannau gwyrdd yn cynnig manteision cadarnhaol ar gyfer iechyd meddwl

Effeithiau negyddol/anfwriadol posibl:

- Dim wedi'u nodi

Y grwpiau poblogaeth penodol y mae'r sylwadau'n berthnasol iddynt:

Pob un

**5.4 Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd**

Nodwyd nifer o effeithiau cadarnhaol gan gynnwys y cyfleoedd y bydd y CDLl yn eu cynnig o ran creu lleoedd, dylunio seilwaith da, gwelliannau i ansawdd tai a'r amgylchedd. Credid bod rhai ffyrdd y gellid cryfhau'r polisïau presennol er mwyn sicrhau'r amodau byw ac amgylcheddol gorau posibl i alluogi pobl i fyw bywydau iach. Bydd yr atebion ar gyfer pob cymuned yn amrywio'n fawr, nid yw 'un ateb i bawb' bob amser yn gweithio.

Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd:

- Agosrwydd at fannau gwyrdd da / mynediad at gyfleoedd tyfu bwyd iach yn y Fro
- Mannau agored amlswyddogaethol
- Adeiladau carbon sero-net wedi'u cynllunio

Effeithiau negyddol/anfwriadol posibl:

- Effaith sŵn mewn ardaloedd preswyl o'r defnydd cynyddol o bympiau gwres ffynhonnell aer ac felly sŵn cefndir - mae sŵn gormodol yn effeithio'n sylweddol ar iechyd a lles, felly mae'n rhaid ystyried hyn mewn polisïau a chanllawiau dylunio ar gyfer datblygiadau.
  - Angen ychwanegu cyfeiriad at leihau effaith sŵn mewn polisïau allweddol.
  - Angen ystyried y posibilrwydd o fwy o sŵn o bympiau gwres ffynhonnell aer.
- Gallai nifer yr achosion o broblemau anadlu sy'n gysylltiedig â datblygiadau gynyddu
- Gwastraff fferm – problemau cynyddol gydag arogleuon a llygredd aer. Mae nitradau yn yr aer yn effeithio ar ansawdd dŵr ac ecoleg

Y grwpiau poblogaeth penodol y mae'r sylwadau'n berthnasol iddynt:

Pob un

**5.5 Mynediad i wasanaethau a’u hansawdd**

Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd:

- Cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau amlddefnydd mewn gwasanaethau cymunedol/canolog newydd. Gallai timau gofal iechyd cymunedol feddiannu safleoedd/adeiladau fel rhan o gyfleuster defnydd cymysg, felly byddai modd darparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae awydd gan y trydydd sector hefyd i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae llawer o le cymunedol o bosibl ac mae datblygwyr am ei feddiannu.

Effeithiau negyddol/anfwriadol posibl:

- Gall fod yn anodd i rai grwpiau gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, er enghraifft os yw trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig ac os yw gwasanaethau wedi'u lleoli y tu allan i ganol trefi sy'n fwy hygyrch

Y grwpiau poblogaeth penodol y mae'r sylwadau'n berthnasol iddynt:

Grwpiau anabl, pobl hŷn

**6. Sylwadau ychwanegol a godwyd yn y gweithdy**

- Dylid cryfhau geiriad y polisïau fel nad oes amwysedd ynghylch y gofyniad, er enghraifft mae defnyddio'r ymadrodd "dylid/dylai" yn awgrymu nad yw rhywbeth mor bwysig, tra bod "rhaid" yn dangos y pwysigrwydd yn glir. Mae hyn yn arbennig o allweddol ar gyfer cyflawni'r agenda newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cyngor wedi nodi ei fwriad clir i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy'r Argyfwng Newid Hinsawdd a Phrosiect Sero, felly mae'n rhaid i bolisi cynllunio fod yn ddigon cryf i gefnogi hyn.

- Mae’r cynnydd mewn datblygiadau amaethyddol yn bryder arbennig yn rhannau gwledig y Fro. Mae goblygiadau iechyd o ganlyniad i sŵn a llygredd aer/arogleuon oherwydd gwastraff fferm. Mae datblygiadau newydd sy'n tresmasu ar dir fferm yn mynd i waethygu'r broblem hon. Mae hefyd yn allweddol mynd i’r afael â llygredd nitradau mewn cyrsiau dŵr.

- Mae potensial i ystyried yr angen am fannau cymunedol, gwasanaethau iechyd ac amwynderau eraill yn ystod cam uwch-gynllunio safleoedd newydd.

- Gallai'r CDLlN ystyried cynnwys cyfeiriad at fabwysiadu dull partneriaeth o gyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun

- Ystyried sut orau y gall y CDLlN gefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd yn y dyfodol ar gyfer safleoedd tai newydd, er enghraifft sicrhau bod meddygfeydd. Dylid ymgynghori â'r Bwrdd Iechyd bob amser yn ystod y cam cyn-gynllunio ar safleoedd mawr, a hysbysu'r Cyngor am opsiynau twf a chapasiti gofal sylfaenol, a chyflwyno'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer sut y gall yr amgylchedd adeiledig hyrwyddo iechyd a lles da.

- Mae angen cynnwys yn y CDLl adran ar ddylanwad y bwrdd gwasanaeth cyhoeddus, sut y gall gyfrannu at y gwaith o gyflawni nodau'r cynllun, a sut y mae wedi bwydo i mewn iddo er enghraifft trwy'r uno â'r Cynllun Lles

**7. Argymhellion**

- Ystyried ym mholisïau'r CDLlN yr effaith ar y grwpiau poblogaeth penodol yn y Fro sy'n debygol o gael eu heffeithio, yn enwedig y grwpiau poblogaeth hŷn ac iau.
- Ystyried a all y polisïau gefnogi unrhyw waith i leddfu'r materion a godwyd ynghylch y broblem nad yw gweithwyr gofal cymdeithasol yn gallu byw na gweithio yng Ngorllewin y Fro.
- Mae llwybrau a chyfleoedd teithio llesol yn amlwg yn y Polisïau Strategol, ond mae angen iddynt gysylltu'n dda â chyfleusterau a gwasanaethau presennol a newydd, bod yn hygyrch i ystod o ddefnyddwyr, a'u cynllunio i apelio at ddefnyddwyr fel y ffordd hawsaf a mwyaf deniadol o deithio.
- Ystyried y ffordd orau o ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac iechyd cydgysylltiedig.
- Annog datblygwyr i ymgysylltu'n gynnar gyda darparwyr gofal iechyd a'r gymuned leol i ystyried goblygiadau iechyd a chyfleoedd datblygiadau newydd.
- Dylai gwaith lliniaru newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd polisïau, gan gynnwys creu mannau gwyrdd a glas, cysgodi digonol, cyfeiriadedd, toeau gwyrdd, defnyddio ynni adnewyddadwy.
- Geirio polisïau'n glir er mwyn osgoi unrhyw amwysedd ynghylch a ddylid gwneud rhywbeth.
- Ystyried yn benodol i delio â'r cydnawsedd rhwng datblygiadau amaethyddol â datblygiadau preswyl o ran sŵn, arogl a llygredd nitradau.

**8. Casgliad**

Ystyriwyd y bydd y Polisïau Strategol lefel uchel yn y Strategaeth a Ffefrir yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd yn gyffredinol.

Cafwyd trafodaeth ddefnyddiol yn y gweithdy am anghenion y boblogaeth sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro a chafodd cyfranogwyr y gweithdy gyfle da i dynnu sylw at faterion penodol yn ymwneud â'r penderfynyddion ehangach y gellid dylanwadu arnynt trwy'r Polisïau Strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Bydd y materion a godwyd yn y gweithdy yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r polisïau manwl ar gyfer y Cynllun "Adneuo" neu'r cynllun llawn dros y 12 mis nesaf a bydd Gweithdy AEI pellach yn cael ei gynnal ar yr adeg hon i asesu'r polisïau manwl.

**ATODIAD 1: Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Victoria Morgan | Prif Gynllunydd (Tîm Polisi Cynllunio/CDLl), Cyngor Bro Morgannwg |
| Andrew Wallace | Uwch Gynllunydd (Tîm Polisi Cynllunio/CDLl), Cyngor Bro Morgannwg |
| Marcus Bayona-Martinez | Uwch Gynllunydd (Tîm Polisi Cynllunio/CDLl), Cyngor Bro Morgannwg |
| Georgia Peters | Cynllunydd Cynorthwyol (Tîm Polisi Cynllunio/CDLl), Cyngor Bro Morgannwg |
| Cheryl Williams | Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Iechyd y Cyhoedd) |
| Claire Hartrey | Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Cymdogaeth, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir |
| Neil Morgan | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (Gofal Sylfaenol) |
| Victoria Hayman-Teear | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (Gofal Sylfaenol) |
| Kate Roberts | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (Gofal Sylfaenol) |
| Sarah Congreve | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (Gofal Sylfaenol) |
| Carole Murphy | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (Gofal Sylfaenol) |
| Lisa Elliot | Swyddog Teithio Llesol, Cyngor Bro Morgannwg |
| Susannah McWilliam | Rheolwr Rhaglen Prosiect Sero (Newid yn yr Hinsawdd), Cyngor Bro Morgannwg |
| Helen Moses | Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth, Cyngor Bro Morgannwg |
| Mererid Velios | Rheolwr Lleoedd (Y Barri), Cyngor Bro Morgannwg |
| Geoff Hobbs | Uwch Swyddog Cynllunio Adnoddau Naturiol, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Steve Meaden | Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol: Iechyd a Lles, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mike Cuddy | Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg |
| Y Cynghorydd Ruba Sivagnanam | Yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol |

**ATODIAD 2: Agenda**

| Amser | Gweithgaredd | Siaradwr |
|---|---|---|
| 09.00 | Cofrestru (te/coffi ar gael) | |
| 09:15 | **Croeso a chyflwyniad i'r Gweithdy** | **Cheryl Williams:**Prif Arbenigwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| 09:25 | **Cyflwyniad:** Trosolwg o'r Strategaeth a Ffefrir | **Victoria Morgan**: Cyngor Bro Morgannwg |
| 09:45 | **Cyflwyniad:** Trosolwg o'r AEI a chyflwyniad i'r offeryn arfarnu | **Cheryl Williams** |
| 10:00 | **Cyflwyniad:**Dangosyddion iechyd a demograffeg poblogaeth allweddol ar gyfer Bro Morgannwg | **Cheryl Williams** |
| 10:10 | **Gweithgaredd gweithdy 1:** nodi grwpiau agored i niwed | **Grwpiau wedi'u hwyluso** |
| 10.45 | EGWYL | |
| 11:00 | **Gweithgaredd gweithdy 2**: nodi effeithiau iechyd posibl y Strategaeth a Ffefrir a sut i'w lliniaru (rhan 1) | **Grwpiau wedi'u hwyluso** |
| 12.05 | EGWYL | |
| 12:15 | **Gweithgaredd gweithdy 2**: nodi effeithiau iechyd posibl y Strategaeth a Ffefrir a sut i'w lliniaru (rhan 2) | **Grwpiau wedi'u hwyluso** |
| 12:55 | Sylwadau terfynol a chloi | **Victoria Morgan** |
| 13:00 | Diwedd | |

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

NHS WALES GIG CYMRU | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

**ATODIAD 3: Rhestrau Gwirio Grwpiau Poblogaeth / Penderfynyddion Ehangach WHIASU**



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

# Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth

**Mae'r rhestr wirio hon i'w defnyddio yn ystod Proses Sgrinio ac Arfarnu HIA er mwyn nodi'r grwpiau poblogaeth y gellid cael mwy o effaith arnynt nag eraill drwy bolisi/prosiect/cynnig.**

Mae'r grwpiau a restrir isod wedi'u nodi fel rhai sy'n fwy agored i ganlyniadau iechyd a llesiant gwaeth (anghydraddoldebau iechyd) ac felly mae'n bwysig eu hystyried wrth Sgrinio ac Arfarnu HIA. Mewn HIA, bydd y grwpiau y nodwyd eu bod yn fwy sensitif i effeithiau posibl yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun, a natur y cynnig ei hun.

Canllaw yn unig yw'r rhestr hon felly ac nid yw'n hollgynhwysol. Gall fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag anfanteision lluosog. Nodwch hefyd y gall terminoleg newid dros amser/ cyhoeddiad.

**Grwpiau cysylltiedig â rhyw/ rhywedd**
- Benywaidd
- Gwrywaidd
- Trawsryweddol
- Arall *(rhowch fanylion)*

**Grwpiau cysylltiedig ag oedran** *(gellid nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig)*
- Plant a phobl ifanc
- Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a blwyddyn gyntaf bywyd)
- Poblogaeth oedolion yn gyffredinol
- Pobl hŷn

**Grwpiau sy'n wynebu risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall**
- Pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig *(rhowch fanylion)*
- Gofalwyr
- Cyn-droseddwyr
- Sipsiwn a Theithwyr
- Y Digartref
- Iaith/diwylliant *(rhowch fanylion)*
- Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl sy'n ceisio lloches
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl sydd ag anableddau/ anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid
- Grwpiau crefyddol *(rhowch fanylion)*
- Teuluoedd rhiant unigol
- Cyn-filwyr

**Grwpiau cysylltiedig ag incwm**
- Economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl sy'n methu gweithio oherwydd salwch
- Di-waith/heb waith

**Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol** *(sylwer - gall hyn fod yn gyfuniad o ffactorau)*
- Pobl mewn lleoliadau allweddol: gweithleoedd/ysgolion/ysbytai/ cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir dangosyddion gwael o ran yr economi a/neu iechyd
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ynysig neu orboblog
- Pobl sy'n methu â chael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

© 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

NHS WALES GIG CYMRU
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

# Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd a Llesiant

IECHYD A LLESIANT CORFFOROL, MEDDYLIOL, CYMDEITHASOL, AMGYLCHEDDOL

## 1. Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

- Diet / Maeth / Bwydo ar y fron
- Gweithgarwch corfforol
- Gweithgaredd cymryd risg h.y. ymddygiad caethiwus, gamblo
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Defnyddio alcohol, sigaréts, systemau cyflawni nicotin electronig (h.y. e-sigaréts)
- Gweithgarwch rhywiol
- Defnyddio sylweddau, meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn, a cham-drin meddyginiaeth presgripsiwn

## 2. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod h.y. camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol
- Cydlyniant cymunedol, hunaniaeth, balchder lleol
- Cydnerthedd cymunedol
- Rhaniadau yn y gymuned
- Trais yn y cartref
- Iaith
- Perthnasoedd, trefniadaeth a rolau teuluol
- Ethos diwylliannol ac ysbrydol
- Bod yn gymdogol
- Allgáu cymdeithasol arall h.y. digartrefedd, carchariad
- Rhianta ac ymlyniad babanod (bond cynnar cryf rhwng baban a'r gofalwr sylfaenol)
- Pwysau gan gyfoedion
- Hiliaeth
- Ymdeimlad o berthyn
- Unigedd cymdeithasol/unigrwydd
- Cyfalaf cymdeithasol, cefnogaeth a rhwydweithiau
- Trydydd Sector a Gwirfoddoli
- Grym a dylanwad y dinesydd

## 3. Iechyd a llesiant meddwl

**A allai fod effeithiau posibl ar:**

- Llesiant emosiynol, bodlonrwydd bywyd neu gydnerthedd?
- Ymdeimlad o reolaeth?
- Teimlo'n werth chweil, yn cael eu gwerthfawrogi neu'n meddu ar ymdeimlad o bwrpas?
- Ansicrwydd neu bryder?
- Teimlo'n saff a diogel?
- Cyfranogiad mewn bywyd cymunedol ac economaidd?

## 4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

- Ansawdd aer
- Ardal yn ddeniadol
- Diogelwch cymunedol
- Mynediad, argaeledd ac ansawdd mannau naturiol gwyrdd a glas
- Ansawdd a deiliadaeth tai
- Amgylchedd dan do
- Iechyd a Diogelwch
- Llygredd golau
- Sŵn
- Ansawdd a diogelwch mannau chwarae (ffurfiol ac anffurfiol)
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Arogleuon
- Amgylchedd adeiledig a naturiol trefol/gwledig a dyluniad y gymdogaeth
- Gwaredu gwastraff, ailgylchu
- Ansawdd dŵr h.y. dŵr môr

## 5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

- Diweithdra
- Tlodi gan gynnwys tlodi bwyd a thanwydd
- Incwm
- Dyledion personol ac aelwyd
- Anweithgarwch economaidd
- Math o gyflogaeth h.y. parhaol/ dros dro, amser llawn/rhan-amser
- Amodau gwaith h.y. bwlio, iechyd a diogelwch, yr amgylchedd

## 6. Mynediad ac ansawdd gwasanaethau

- Cyngor gyrfaol
- Addysg a hyfforddiant
- Technoleg gwybodaeth, mynediad i'r rhyngrwyd, gwasanaethau digidol
- Gwasanaethau hamdden
- Gwasanaethau meddygol ac iechyd
- Cyngor lles a chyfreithiol
- Gwasanaethau gofalu eraill h.y. gofal cymdeithasol; Trydydd Sector, gwasanaethau ieuenctid, gofal plant
- Amwynderau cyhoeddus h.y. neuaddau pentref, llyfrgelloedd, canolbwynt cymunedol
- Siopau a gwasanaethau masnachol
- Trafnidiaeth gan gynnwys parcio, trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol

## 7. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

- Bioamrywiaeth
- Newid yn yr hinsawdd h.y. llifogydd, tywydd poeth
- Costau byw h.y. bwyd, rhent, cludiant a phrisiau tai
- Datblygu economaidd gan gynnwys masnachu a chytundebau masnach
- Cynnyrch Mewnwladol Crynswth
- Adfywio
- Polisïau'r llywodraeth h.y. egwyddor Datblygu Cynaliadwy (integreiddio; cydweithredu; ymglymiad; meddwl tymor hir; ac atal)

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

